

| | |
|--------------------------------|--|
| Adroddiad i'r | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| Dyddiad y Cyfarfod | 25 Medi 2024 |
| Aelod/Swyddog Arweiniol | Gary Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes |
| Awdur yr Adroddiad | Gary Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes |
| Teitl | Enwebu aelodau i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyd-bwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru |

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Testun yma Mae'r adroddiad yn ymwneud â sefydlu Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ('Pla') ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru ('y CCC') ac enwebu aelodau i wasanaethu arno.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Gofynnwyd i'r Cyngor enwebu aelodau'r Pwyllgor i wasanaethu ar PLIA y CCGC. Y rheswm am yr adroddiad hwn yw ceisio enwebiadau gan y Pwyllgor.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn enwebu un cynghorydd i wasanaethu ar Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyd-bwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru ac un cynghorydd i weithredu fel dirprwy ar gyfer yr aelod hwnnw.

3.2. Bod y Pwyllgor yn penderfynu a yw'n dymuno enwebu Aelod Lleyg i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyd-bwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru.

4. Manylion yr adroddiad

- 4.1. Roedd Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru 2021 ('y Rheoliadau') yn darparu ar gyfer creu'r CCGC yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ('Deddf 2021').
- 4.2. Darparodd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 y dylai pob prif gyngor yng Nghymru gael Pwyllgor Archwilio. Cafodd y pwyllgorau hyn eu hailenwi'n ddiweddarach gan Ddeddf 2021 yn Bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio.
- 4.3. Mae'r Rheoliadau'n darparu bod yn rhaid i'r CCGC gael ei PLIA ei hun. Rhaid i'r PLIA gynnwys traean o'i aelodaeth yn cynnwys aelodau lleyg.
- 4.4. Mae'r CCGC wedi penderfynu creu PLIA. Bydd naw aelod o'r PLIA. Bydd yr aelodaeth yn cynnwys chwe chynghorydd, un o bob un o'r cynghorau cyfansoddol, a thri aelod lleyg. Y cworwm ar gyfer y PLIA fydd saith. Bydd cworwm yn bodoli pan fydd cynghorydd o bob un o'r cynghorau cyfansoddol ynghyd ag un aelod lleyg yn bresennol.
- 4.5. Disgwylir i'r PLIA gyfarfod yn chwarterol a disgwylir i bob cyfarfod bara tua dwy awr. Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rhithwir.
- 4.6. Mae'r PLIA yn dymuno penodi aelodau o Bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio presennol y cynghorau cyfansoddol. Gofynnwyd i bob un o'r cynghorau cyfansoddol enwebu cynghorydd o'i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ei hun fel ei brif enwebai ynghyd ag ail gynghorydd i weithredu fel dirprwy er mwyn gallu cyflawni cworwm pan nad yw'r prif enwebai ar gael.
- 4.7. Mae hefyd wedi gofyn i bob un o'r cynghorau cyfansoddol a fyddai'n dymuno enwebu aelod lleyg i wasanaethu ar y PLIA. Mae'r CCGC wedi penderfynu talu'r gyfradd fesul awr a bennwyd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i aelodau lleyg am y gwaith y maent yn ei wneud.
- 4.8. Os bydd mwy o enwebiadau o'r cynghorau cyfansoddol na'r tri sy'n ofynnol, yna bydd y CCGC yn dewis aelodau lleyg ar sail eu crynodebau.
- 4.9. Atodir i'r adroddiad hwn fel Atodiad 1 ddogfen a gynhyrchwyd ar ran y CCGC sy'n cynnwys disgrifiad rôl ar gyfer aelodau lleyg ynghyd â chylch gorchwyl ar gyfer y PLIA.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Nid yw'r penderfyniad yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar y Cynllun Corfforaethol.

6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Y CCGC fydd yn talu costau'r PLIA, er bod cyllideb y CCGC yn cael ei darparu gan y chwe chyngor.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ni fu unrhyw ymgynghoriadau mewn perthynas â'r adroddiad hwn.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Testun yma

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae risg na fydd gan GAC y CJC gworwm os na wneir enwebiadau.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.